Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 41: 2 MAWRTH 2010

Rydym ynghanol **PYTHEFNOS MASNACH DEG** ar hyn o bryd, sydd â'r thema y Cyfnewid Mawr eleni. Fe'n gwahoddir i gyfnewid ein nwyddau arferol –megis dillad, gemwaith, nwyddau'r cartref a bwyd – am rai Masnach Deg. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru'ch cyfnewid ar-lein, cliciwch yma.

Mae Morlan wedi trefnu noson o goginio i dynnu sylw at Bythefnos Masnach Deg nos Iau yma am 7.30. Bydd cwmni arlwyo lleol A-maeth yn dangos i chi sut i goginio dau bryd tri-chwrs gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg. Bydd yno hefyd stondin o wybodaeth a chynnyrch gan Grŵp Masnach Deg Aberystwyth a chyfle i ennill basged o fwydydd masnach deg mewn raffl (yn rhoddedig gan y siop Co-operative lleol). Tâl mynediad: £3 (yn cynnwys paned Masnach Deg).

Ar y nos Fercher ganlynol (am 7.30) bydd Cwmni Morlan yn cyflwyno ***DAMIEN, TOMOS AC ARIANWEN WEN WEN***. Cyflwyniad gwreiddiol ar thema hawliau dynol yw hwn, yn tynnu sylw at lafur plant a thlodi yn benodol. Awdur: Sarah Down. Cynhyrchydd: Geraint Evans. Mynediad am ddim.

Gobeithio'n fawr y dewch i gefnogi'r ddwy noson sy'n rhan o raglen gweithgareddau y Morlan.

Dyma'r digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma dros y bythefnos nesaf.

CYMDEITHAS GELF Y MYFYRWYR
3-26 Mawrth
Arddangosfa gelf o waith myfyrwyr celf Prifysgol Cymru Aberystwyth

GRŴP BWDHAETH
7.30-9.00, nos Fercher, 3 Mawrth
Mae'r grŵp hwn newydd ddechrau cyfarfod yn y Morlan ar nos Fercher gyntaf bob mis.

RHWYDWAITH HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERYSTWYTH
8.15, nos Fercher, 3 Mawrth
Cyfarfod nesaf y grŵp lleol hwn sy'n gweithio dros faterion yn ymwneud â heddwch a chyfiawnder.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 4 Mawrth
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

BORE COFFI
10.00-1.00, bore Sadwrn, 6 Mawrth
Bore coffi misol a drefnir gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar Sadwrn cyntaf bob mis. Cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen! Croeso i bawb.

GWEITHDY CANU
10.00-1.00; 2.00-5.00, dydd Sadwrn, 13 Mawrth
Diwrnod o ganu i gantorion corawl newydd a phrofiadol o dan arweiniad David Leggett. Trefnir gan Tŷ Cerdd Cymru. Gwybodaeth bellach oddi wrth rhiannon.mclean@tycerdd.info.

Cofion gorau

Carol Jenkins

Rheolwr